# YMWELIAD DATBLYGU MASNACH RHITHWIR – Y NORDICS

Awst & Medi 2020

**Sectorau Allweddol**

Bwyd a Diod

**Dyddiad Cau:**
24 Mehefin 2020

Mynd â Chymru i'r Byd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Y Cynnig

Rydym yn gwahodd ceisiadau oddi wrth aelodau Clwb Allforio Bwyd a Diod Cymru i gymryd rhan mewn Ymweliad Datblygu Masnach rhithwir â Denmarc, y Ffindir, Norwy a Sweden, a gefnogir gan Bwyd a Diod Cymru. Ein partneriaid yn y farchnad fydd yn darparu'r rhaglen allgymorth ar gyfer pob gwlad yw'r Adran Masnach Ryngwladol (DIT).

Mae hwn yn gyfle unigryw i ddysgu am y marchnadoedd hyn a chael eich cynhyrchion wedi'u cyflwyno i ddarpar brynwyr, dosbarthwyr a mewnforwyr wedi'u targedu yn Nenmarc, y Ffindir, Norwy a Sweden. Yna byddwch yn derbyn adroddiad gyda manylion cyswllt darpar brynwr cyn-gymhwyso sy'n eich galluogi i fwrw ymlaen â sefydlu cyfarfodydd ar-lein.

Mae'r Ymweliad Datblygu Masnach rhithwir hwn yn addas ar gyfer allforwyr newydd a phrofiadol.

## Pam Denmarc, y Ffindir, Norwy a Sweden?

Mae'r pedair gwlad yn ddefnyddwyr cefnog a soffistigedig. Mae cynhyrchion o Brydain yn cael derbyniad da.

Mae rhwyddineb gwneud busnes gyda'r gwledydd hyn yn gwneud y rhanbarth yn farchnad brawf ddelfrydol ar gyfer darpar allforwyr.

Siaredir Saesneg yn eang ledled y rhanbarth, a chyda'r pedair prifddinas yn hawdd eu cyrraedd mewn dim ond 2 - 3 awr, maent yn hawdd eu gwasanaethu.

Yn gyntaf yn Ewrop er hwylustod i wneud busnes, mae Denmarc hefyd yn y 4ydd safle uchaf yn y byd.

Mae Daniaid yn agored i gynhyrchion y DU ac mae ganddyn nhw enw da am fod yn dalwyr prydlon (DIT, Exporting Is Great).

Y DU yw partner masnachu mwyaf Norwy, roedd cyfanswm y fasnach rhwng y 2 wlad werth £ 26.3 biliwn yn 2019 (DIT, Exporting Is Great).

Roedd cyfanswm y fasnach mewn nwyddau a gwasanaethau (allforion ynghyd â mewnforion) rhwng y DU a'r Ffindir werth £ 5.7 biliwn yn y flwyddyn yn arwain at ddiwedd mis Mawrth 2019 (ONS, 2019).

Mae marchnad defnyddwyr soffistigedig Sweden wedi profi'n boblogaidd gyda brandiau rhyngwladol sydd am roi cynnig ar gynnyrch newydd (Business Sweden, 2019).

Mae agwedd Sweden tuag at fusnes rhyngwladol yn fodern, yn agored ac yn gyfeillgar.

## Cyfleoedd bwyd a diod allweddol yn y gwledydd hyn:

— Bwyd sy'n seiliedig ar blanhigion, fegan, llysieuol
— Byrbryd iach
— Bwyd yn "rhydd o"
— Bwydydd premiwm / Gourmet / Arbenigedd
— Caws
— Cwrw crefft
— Bwydydd cyfleus
— Cynhyrchion Arloesol ac Arbenigedd
— Cynaliadwy ac ecogyfeillgar - e.e. ailddefnyddio, ailgylchu ac ati.

Defnyddiwch y ddolen hon ar gyfer y ffurflen gais ar-lein:
https://bicinnovation.formstack.com/forms/f_d_wales_nordics_vtdv
neu ebostiwch angharad.evans@bic-innovation.com am fwy o gwybodaeth.



## Y Gost:

I gymryd rhan yn yr ymweliad datblygu masnach rhithwir hwn, bydd yn costio **£400.00 + TAW** ac mae'n cynnwys:

— Briff marchnad wedi'i deilwra sy'n ymdrin â strwythur y farchnad, llwybrau i'r farchnad, cyfleoedd a heriau posibl ym mhob un o'r pedair marchnad

— Galwadau 1: 1 gyda chynrychiolwyr DIT ym mhob gwlad.

— Manylion eich cwmni a hyrwyddir i brynwyr, dosbarthwyr a mewnforwyr yn Nenmarc, y Ffindir, Norwy a Sweden.

— Adroddiad adborth o bob gwlad yn tynnu sylw at ble mae potensial i drafod ymhellach, darperir manylion cyswllt i chi drefnu cyfarfodydd ar-lein gyda'r dosbarthwr, prynwr neu fewnforiwr sydd â diddordeb.

— Cefnogaeth a chyngor, cyn ac ar ôl y digwyddiad gyda'n Uwch Reolwyr Allforio a'n partneriaid penodedig yn y farchnad, DIT.

## Nodyn ar gludo samplau:

Er y byddwn yn cynnig cyngor am gludwyr nwyddau, bydd y cyfranogwyr yn gyfrifol am gludo samplau i sicrhau eu bod yn cyrraedd mewn da bryd, cyn y cyfarfodydd ar-lein. Y cyfranogwyr fydd hefyd yn gyfrifol am y costau cludo.

Defnyddiwch y ddolen hon ar gyfer y ffurflen gais ar-lein:
https://bicinnovation.formstack.com/forms/f_d_wales_nordics_vtdv
neu ebostiwch angharad.evans@bic-innovation.com am fwy o gwybodaeth.